# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Affinity Homecare Aberystwyth**

**26 Heol y Bont**
**Aberystwyth**
**SY23 1QB**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

24/09/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Affinity Homecare Aberystwyth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Affinity Homecare Group Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 27 Gorffennaf 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl sy'n defnyddio Affinity yn cael gofal a chymorth gan dîm o weithwyr gofal uchel eu cymhelliant sydd wedi'u recriwtio, eu hyfforddi a'u goruchwylio'n briodol. Cânt eu harwain gan reolwr profiadol a dirprwy uchel ei barch, ac mae'r unigolyn cyfrifol yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r gwasanaeth.

Caiff y bobl ofal a chymorth gan dîm o weithwyr sydd, ar y cyfan, yn adnabod y bobl yn dda ac sydd wedi meithrin cydberthnasau da â nhw. Mae'r gwasanaeth yn ddibynadwy ac mae gan y bobl ddewis o ran agweddau ar eu gofal.

## Llesiant

Mae’r bobl yn ddiogel ac yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod. Mae hyn oherwydd bod y gweithwyr gofal yn gwybod pa gamau y mae'n rhaid iddynt eu cymryd os byddant yn amau bod unigolyn yn wynebu risg. Maent wedi cael hyfforddiant diogelu ac yn hyderus y byddai'r rheolwr yn ymdrin ag unrhyw bryderon er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael eu diogelu'n briodol.

Mae ymdrechion wedi cael eu gwneud i recriwtio gweithwyr gofal ychwanegol ac maent wedi setlo'n dda yn eu rolau. Mae rhai pobl yn canmol y gweithwyr gofal newydd, gan eu disgrifio fel unigolion *“Very good, very thorough”.* Mae'r gweithwyr gofal yn ymgymryd â chyfnod sefydlu, lle maent yn gweithio ochr yn ochr â staff mwy profiadol er mwyn ymgyfarwyddo â'u rôl a dod i adnabod y bobl a'u hanghenion.

Gall y bobl gael gwasanaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae nifer o'r gweithwyr gofal yn siarad Cymraeg ac mae gan eraill wybodaeth sylfaenol am yr iaith. Mae'r cynlluniau gofal a dogfennau eraill ar gael yn Gymraeg. Mae'r darparwr wedi cytuno i sicrhau y caiff hyn ei gynnig i'r bobl mewn ffordd fwy rhagweithiol. Mae'r bobl yn gwerthfawrogi cael gofal gan weithwyr sy'n gallu siarad â nhw yn Gymraeg.

Mae'r cydberthnasau rhwng y bobl a'r rheini sy'n gofalu amdanynt yn dda. Mae'r bobl a'u perthnasau yn sôn yn llawn hoffter am y tîm o staff a gwelsom enghreifftiau o ryngweithio cyfeillgar a pharchus. Cânt rai cyfleoedd i arfer dewisiadau personol ac mae'r tîm o staff mor hyblyg ag y gallant fod er mwyn ymateb i geisiadau'r bobl.

## Gofal a Chymorth

Mae'r cynlluniau gofal yn gynhwysfawr ac yn nodi'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen ar yr unigolyn yn ystod pob ymweliad, yn ôl yr asesiadau a gynhaliwyd. Mae'r cynlluniau gofal yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol, gan gynnwys "*What matters to me, who matters to me, what I like to do for myself*" a *"What I require assistance with".*

Mae asesiadau risg yn cael eu cwblhau ar gyfer amrywiaeth o feysydd i gefnogi'r cynlluniau gofal, gan gynnwys yr amgylchedd ffisegol, Symud a Chodi a Chario a meddyginiaeth.

Caiff y cynlluniau gofal eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr bod anghenion presennol y bobl yn cael eu cofnodi, ac mae'r bobl a'u teuluoedd yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio gofal.

Mae'r cofnodion dyddiol yn llawn gwybodaeth ac yn nodi'r gofal a roddir yn glir. Pan fo'r gweithwyr gofal yn gyfrifol am roi meddyginiaeth, caiff cofnodion eu cadw.

Caiff anghenion corfforol y bobl eu diwallu. Mewn rhai achosion, mae'r gweithwyr gofal yn rhoi meddyginiaeth, gan gynnwys meddyginiaeth a roddir drwy'r geg ac unrhyw eliau a ragnodwyd. Mae'r gweithwyr gofal yn gwybod sut i adnabod yr arwyddion sy'n gysylltiedig â niwed o ganlyniad i friwiau pwyso ar y croen ac yn gwybod pwy y dylid rhoi gwybod iddynt am unrhyw bryderon. Roedd gweithiwr iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld â'r gwasanaeth yn canmol y gwasanaeth. Dywedodd bod pethau wedi gwella'n sylweddol dros amser, gan ychwanegu bod y gweithwyr yn *"very good at recognising what people want",* a *"they looked after X so well".* Mae'r gweithwyr gofal yn gweithio'n agos gyda gweithwyr iechyd proffesiynol ac maent yn barod i ymgymryd ag unrhyw gyfleoedd hyfforddiant a gynigir iddynt.

Mae gan y bobl lais ac mae'r gweithwyr gofal yn deall pwysigrwydd rhoi cymaint o ddewis i'r bobl â phosibl. Mae'r gweithwyr gofal yn dangos parch ac yn ystyried anghenion preifatrwydd ac urddas y bobl. Maent yn gofyn caniatâd, lle y bo'n bosibl, ac yn esbonio'r hyn y byddant yn ei wneud, gan sicrhau bod y person yn cytuno â hynny ac yn deall yr hyn y mae'r gweithiwr yn ei wneud.

Mae'r gwasanaeth yn ddibynadwy. Nid yw'r gwasanaeth wedi methu unrhyw alwadau, ac mae'r bobl yn cael gwybod os bydd y gweithwyr gofal yn rhedeg yn hwyr. Os bydd asesiadau wedi dangos bod angen dau weithiwr gofal ar unigolyn, mae'r nifer cywir bob amser yn mynychu'r alwad. Nid yw'r gweithwyr gofal yn rhuthro ac, ar y cyfan, mae digon o amser teithio wedi'i gynnwys ar eu rota. Yn ystod rhai ymweliadau, mae rhywfaint o amser gan y gweithwyr gofal i sgwrsio â'r bobl.

Mae'r cydberthnasau rhwng y bobl a'r gwasanaeth yn dda. Gwnaed y sylwadau canlynol am y gweithwyr a'r staff: *"Absolutely brilliant… very kind and patient";* "*They have been brilliant… couldn't ask for better"; "Two of the staff are outstanding…one dotes on X, there is chemistry there"* a "*There is a bit of banter… they are very good, very thorough".* Mae'r gweithwyr gofal yn ceisio bod yn hyblyg, lle y bo'n bosibl, er mwyn ystyried unrhyw newidiadau o ran anghenion y bobl.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda. Mae'n ymweld â'r gwasanaeth yn ôl yr angen ac yn cefnogi'r rheolwr a'i dîm yn rheolaidd. Mae'r adroddiadau a gaiff eu hysgrifennu yn dangos bod barn y bobl a'r rhai sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn cael ei hystyried. Mae'r rheolwr yn weladwy iawn yn y gwasanaeth a chaiff ei gefnogi'n dda gan ddirprwy reolwr profiadol. Mae'r ddau yn ymgymryd â rhywfaint o waith gofal fel sy'n ofynnol gan y gwasanaeth ac maent mewn cysylltiad rheolaidd â'r tîm o staff, gan gynnig cymorth a monitro ansawdd yn ôl yr angen.

Caiff gweithwyr gofal eu penodi yn dilyn proses recriwtio drylwyr. Mae'r ffeiliau yn drefnus ac yn hawdd eu deall. Maent yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth sydd ei hangen, gan gynnwys geirdaon a gwiriadau diogelwch. Caiff hanes cyflogaeth llawn ei ddarparu ar y rhan fwyaf o'r ffurflenni cais.

Mae'r gweithwyr gofal yn cael adborth ar eu gwaith i'w helpu i ddatblygu. Cadarnhaodd y bobl a'u perthnasau fod hapwiriadau yn cael eu cynnal a bod gweithwyr newydd yn ymgymryd â chyfnod sefydlu lle byddant yn cysgodi staff mwy profiadol, cyn cael eu goruchwylio gan un o'r rheolwyr. Mae'r gweithwyr gofal unigol yn cael adborth gan y bobl a'u perthnasau, gan gynnwys, *"You are all patient, X is glad to see a kind and happy face", you are all amazing, you go above and beyond"* ac *"We are extremely happy with the standard of care… all the staff have been very professional, friendly and have looked after Y exceptionally well".*

Caiff sesiynau goruchwylio eu cynnal, ac mae'r ffeiliau staff a welsom yn dangos eu bod yn cael eu cynnal yn unol â'r gofynion a nodir yn y Rheoliadau, ar y cyfan. Mae'r gweithwyr gofal yn cael adborth adeiladol a defnyddiol ar eu gwaith.

Mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod wedi cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau'n ddiogel ac yn effeithiol. Darperir hyfforddiant ar-lein ac wyneb yn wyneb, a chaiff cymhwysedd ei asesu gan uwch-aelodau o'r staff. Mae'r matrics hyfforddiant yn dangos bod y gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys Symud a Chodi a Chario, hylendid bwyd ac atal a rheoli heintiau. Mae hyfforddiant y rhan fwyaf o'r staff yn gyfredol; gwelsom dystiolaeth bod hyfforddiant wedi cael ei drefnu lle roedd angen gwneud hynny.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
| --- | --- | --- |
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 16 | Nid yw'r darparwr wedi cynnwys yr unigolyn a/neu ei gynrychiolydd wrth adolygu'r cynlluniau personol. Yn ystod yr arolygiad ar 20/07/23, edrychwyd ar dri chynllun gofal personol. Nid oes tystiolaeth i ddangos bod y bobl na'u cynrychiolwyr wedi cymryd rhan yn y broses adolygu. Cadarnhaodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw a'r rheolwr nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y broses o adolygu'r cynlluniau personol yn rheolaidd. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 28/10/2024